

BA1 Llwybr y Gymraeg

Ionawr 9, 2024

Egwyddorion sillafu





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Sillafu

Pa lythrennau sy'n dyblu?



DYMA'R **UNIG** LYTHRENNAU SY'N DYBLU YN Y GYMRAEG



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Rheol 1

- ‘nn’ ac ‘rr’ mewn geiriau unsill.

Un rheswm yn unig > osgoi amwysedd:

(gan ddefnyddio geiriadur – darganfyddwch ystyron y geiriau hyn)

yn _____
dyn _____
myr _____
yr _____

ynn _____
dynn _____
myrr _____
yrr _____

Rheol 2

- Y GOBEN - GWAHANIAETHU

'n'	'nn'	'r'	'rr'
canu	cannu	tori	torri
cynydd	cynnydd	tyrau	tyrrau
gwanaf	gwannaf		
gynau	gynnau		
tanau	tannau		
tonau	tonnau		

Rheol 2

- Y GOBEN – HYD Y LLAFARIAD
- Os yw llafariad gair unsill sy'n gorffen gydag 'n' neu 'r' yn FYR, bydd dwy 'n' neu 'r' yn y goben:

pen	————→	pennau
rhan	————→	rhannau
tor	————→	torri
twr	————→	tyrru

Rheol 3

- Mae “**n**” yn dyblu ar ôl **an**

an + t = annh	an + tebyg = annhebyg
an + d = ann	an + dymunol = annymunol
an + n = ann	an + naturiol = annaturiol

OND

- **an + tr = anhr**
- e.e. **an + trefn = anhrefn**

Rheol 4- *Anti Ann*



- Mae'r “**n**” yn dyblu wrth ychwanegu sillaf at eiriau sy'n gorffen gyda **-nt**:

Ilwyddiant	→	Ilwyddi annau ;
peiriant	→	peiri annau ;
diwylliant	→	diwylli annol
dant	→	dannedd
cant	→	cannoedd
tant	→	tannau
methiant	→	methi annau
punt	→	pun noedd

Rheol 5

- Mae'r “**n**” yn dyblu os ydym yn ychwanegu sillaf at air sy'n gorffen gyda **-en** neu **-yn**:

llythyren	→	llythre nn au
llyfryn	→	llyfry nn au
dogfen	→	dogfe nn au
offeryn	→	offery nn au

*Mae **emyn**, **gwenyn** a **telyn** yn eithriadau.

Rheol 6

Nid yw “**n**” yn dyblu mewn geiriau sy’n gorffen gyda **-iwn, -ion** (benthyciadau o’r Saesneg) os ydym yn ychwanegu sillaf:

cwestiwn	————→	cwesti n au	————→	cwesti n u
ffasiwn	————→	ffasi n au	————→	ffasi n ol
fersiwn	————→	fersi n au		

Rheol 7

Nid yw “n” yn dyblu o flaen y terfyniadau
-wyr, -ion, -iad

diflannu	————→	diflaniad
offerynnau	————→	offerynwyr
gwynnu	————→	gwynion
cwr	————→	cyrion
gyrru	————→	gyrwyr

Ydy'r geiriau hyn yn gywir?



- anifyr
- anhrefn
- anniddorol
- ysgrifennyddes
- canu

Allwch chi
ddweud
pam?

Pa eiriau sy'n anghywir?

- anfon
- torrodd
- ysgrifennyddes
- carrio
- emynnau
- ennillodd
- tarran
- byrach
- penderfynu
- prynnu
- anhebygol
- barrug
- gofynodd
- pentyru
- cylchgronau
- gyrru

Beth yw ffurf lluosog y geiriau yma?



Man	Môr	Pennawd
Dant	Gyrrwr	Cwestiwn

Dewiswch y ffurfiau cywir ...



1. Mae'r diwydiant yn wynebu nifer o
(doriadau/dorriadau)
2. Mae'n rhaid i chi’r penderfyniad
(gwestiynnu/gwestiynu)
2. Mae'r sefyllfa yn (anheg/annheg)
2. Wyt ti wedi dod o hyd i'r?
(cyfrifiaduron/cyfrifiadurron)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

‘i’ neu ‘u’??



‘o’ yng nghanol berfenw = ‘i’ ar y diwedd, e.e. colli, pori

‘a’ yng nghanol berfenw = ‘u’ ar y diwedd, e.e. canu, taranu

‘y’ neu ‘w’ yng nghanol berfenw = ‘u’ ar y diwedd, e.e. cysgu, chwynu

‘w’ yn agos at ddiwedd berfenw = ‘i’ yn ei dilyn, e.e. berwi, drewi

Gyda geiriau tebyg eu sain, mae berfenwau fel arfer yn gorffen gydag u, ac enwau lluosog yn gorffen gydag i, e.e. rhestu (*to list*), rhestri (*lists*)

Ymarferion adolygu ...

Ymarferion Papur – cywiro paragraffau

Ymarferion ar-lein

http://www.canolfanpeniarth.org/cywirdeb_iaith/

Ymarferion ar-lein

<http://sgiliauiaith.colegcymraeg.ac.uk/tasgau/index.html>



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG